

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Ebrill 2024.

1.	Presennol:	John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg); Iddon Edwards, Jess Williams (Penmorfa), Stephen Churchman (Cyngorydd Cyngor Gwynedd)
2.	Ymddiheuriadau:	Cyngorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Edward Evans (Bryncir), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)
3.	Ddim yn bresennol:	Neb
4.	Datgan Buddiant:	IE a JW (Eitem 11) - Bu iddynt adael yr ystafell wrth drafod yr eitem yma.
5.	Cywirdeb y cyn-gofnodion :	RW yn cynnig a JT yn eilio.
6.	Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:	<p>Lloches Bws Bryncir - Bu i RP a EE ymweld â Station Cottage am sgwrs gyda'r preswlydd. Preswlydd ddim mewn sefyllfa i'w dorri ei hun ac wedi ceisio cael pobl draw i'w wneud dros y blynyddoedd diwethaf heb unrhyw lwc. Clerc i gysylltu hefo Adran Cefnffyrdd/Cyngor Gwynedd i weld os yw'n bosib iddynt hwy ei dorri gan ei fod yn creu perygl i'r sawl sydd yn dal y bws i gyfeiriad Caernarfon. MLW yn cynnig a RW yn eilio.</p> <p>Cynllun Heddlu Ysgolion - Derbyniwyd ateb gan Mabon ap Gwynfor. Dywedodd y bydd yn parhau i godi'r mater yma gyda'r Llywodraeth ac fe awgrymodd efallai y dylid trefnu deiseb. Clerc i wneud ymholiadau gydag Unllais Cymru parthed cychwyn deiseb. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu hefo Clercod Dwyfor i gyd ac wedi derbyn ymateb Cyngor Tref Nefyn, Porthmadog a Chymuned Llanbedrog eu bod am ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p> <p>*** Ymunodd JW gyda'r cyfarfod.</p> <p>Etholiad: Adroddwyd siomedigaeth nad oedd ymateb neu gydnabyddiaeth wedi'i dderbyn gan yr Uned Etholiadau i'r e-</p>

		bost anfonodd y Clerc parthed yr anfoneb. Clerc i gysylltu yn ôl eto gyda'r uned i fynegi hyn. MLW yn cynnig a RW yn eilio.
7.	Mynwentydd:	<p>Bu i RW ymweld â'r fynwent ar yr 18/3/24 ac adroddodd fod y bin yn llawn. Adroddwyd y mater yma i Veolia yr un diwrnod ar-lein gan nad oedd posib mynd drwodd ar y ffôn. Cafwyd diweddariad yn dweud fod yr achos wedi cau ar y 19/3/24.</p> <p>Bu i'r Cadeirydd gysylltu â mi ar yr 2/4/24 i adrodd fod y bin yn orllawn. Adroddwyd am hyn i Veolia eto ar-lein am nad oedd posib mynd drwodd ar y ffôn.</p> <p>Clerc i ddilyn y mater yma fyny hefo Veolia.</p>
8.	Llwybrau Cyhoeddus:	Adroddwyd eto fod yr arwyddion newydd ar gyfer Pont Faen, Bron y Foel a Chapel Bryn Melyn byth wedi eu gosod. Clerc i ddilyn y mater fyny.
9.	Adroddiad Pentrefi:	<p>Pentrefelin: Adroddodd RJ fod y beipen dŵr oedd yn rhedeg o dan y ffordd bellach wedi ei glirio. Dim arall i'w adrodd.</p> <p>Garndolbenmaen: Adroddodd SCH fod yna ddŵr yn llifo lawr y pentref ar y funud am fod Dŵr Cymru wedi gorfod agor dau hydrant er mwyn rhyddhau'r gwasgedd. Dim dyddiad i'r gwaith gael ei gwblhau eto.</p> <p>Adroddwyd fod yr arwydd "bus stop" wedi ei beintio ar y ffordd bellach ac nad oes problem gyda phobl yn parcio ar y gongl bellach.</p> <p>Penmorfa - Dim i'w adrodd</p> <p>Golan/Cwmystradllyn a Chwm Pennant - Adroddwyd fod yna broblem wedi bod yn ddiweddar gyda llinellau ffôn yn yr ardal. Mae'n edrych yn debyg mai diffyg ydyw yn y gyfnewidfa yn Garndolbenmaen.</p> <p>Soniwyd hefyd fod sawl un yn cael problem gydag Adran Feddygol y DVLA hefyd. Nid oes modd cael siarad ag unrhyw un. Hefyd, mae dogfennau angenrheidiol megis llythyr optegydd a doctor yn cael eu hanfon atynt ac maent yn parhau i anfon llythyr allan yn mynnu bod apwyntiad gydag optegydd yn cael ei wneud o fewn 7 diwrnod o dderbyn y llythyr. Clerc i gysylltu gydag AS i adrodd am hyn.</p> <p>Adroddwyd fod y ffosydd wedi eu clirio ond fod y Cyngor yn parhau i adael y baw ar ochr y ffordd i ddisgyn yn ôl i mewn i'r ffoes.</p>

		<p>Bryncir - Adroddwyd fod yna ddau achos arall o ddŵr wast yn rhedeg i lawr y briffordd wedi bod ym Mryncir. Mae'n edrych yn debyg mai problem gyda'r cwlfwr ydyw. SCH heb gael diweddariad pellach gan yr Adran Gefnffyrdd ac am gysylltu â hwy eto.</p> <p>Prenteg - Dim i'w adrodd.</p>
10.	Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol	<p>Taliad Costau Ychwanegol - Gorfodol ar gyfer bob aelod.</p> <p>Bydd aelodau Cyngorau Cymuned a Thref yn cael taliad o £156 y flwyddyn (sydd gyfystyr â £3 yr wythnos) tuag at gostau ychwanegol (gan gynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. Gall unigolion wrthod derbyn y taliadau, neu ran o'r taliadau os yw'n dymuno hynny. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig ac mae'n fater i'r unigolyn. Rhaid i bob Cyngor Cymuned sicrhau nad yw'n creu hinsawdd sy'n atal pobl rhag cael mynediad at unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo i'w cefnogi i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.</p> <p>Ad-daliad am nwyddau traul - Rhaid i Gyngorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gyngorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Mae'n fater i bob Cyngor wneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut gwneir y taliadau. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad. Taliadau i'w gwneud yn dilyn derbyn derbynneb.</p> <p>Penderfyniad: Mabwysiadwyd yr uchod.</p> <p>Uwch Rôl - Dewisol Hyd at 3 Aelod</p> <p>Mae'r taliad ar gyfer aelodau sy'n ymgymryd ag uwch swyddogaeth yn swm blynyddol o £500.</p> <p>Penderfyniad: Gwrthod yr uchod.</p> <p>Maer neu Gadeirydd - Dewisol hyd at Uchafswm i £1,500</p> <p>Gall Cyngorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Faer neu Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar</p>

gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlr y rhain.

Er eglurder, mae Cyngorau yn talu NAILL AI taliad maer neu gadeirydd o hyd at £1500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod

Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd - Dewisol hyd at Uchafswm o £500

Gall Cyngorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Ddirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlr y rhain.

Er eglurder, mae Cyngorau yn talu NAILL AI taliad dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd o hyd at £500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod.

Lwfans Presenoldeb - Dewisol

Gall pob Cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad.

Penderfyniad: Gwrthod yr uchod

Colled Ariannol - Dewisol

Gall Cyngorau Cymuned a Thref dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:

Hyd at £59.81 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr

Hyd at £119.62 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr

Penderfyniad: Mabwysiadwyd yr uchod.

		<p>Teithio a Chynhaliaeth - Dewisol</p> <p>Gall Cyngorau Cymuned a Thref benderfynu talu costau teithio a/neu gynhaliaeth pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau ei Fawrhydi.</p> <p>Os yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.</p> <p>Penderfyniad: Mabwysiadwyd</p> <p>Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol - Gorfodol</p> <p>Rhaid i'r Cyngor Cymuned ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy.</p> <p>Penderfyniad: Mabwysiadwyd</p> <p>Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, mai dim ond y cyfansymiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllir uchod y bydd angen i'r datganiadau eu dangos, sef y cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r gyfradd benodedig o £52 am lwfans nwyddau traul a'r treuliau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.</p> <p>Mae hyn yn golygu y bydd y taliadau hyn yn gyson ag adrodd ar gostau lwfansau gofal a chymorth personol.</p>
11.	Tendrau Mynwentydd / Llwybrau a Chae Chwarae	<p>Bu i IE a JW adael yr adeilad wrth i'r eitem yma gael ei drafod.</p> <p>Adroddwyd fod 3 tendr wedi'i dderbyn. Agorwyd y tendrau gan y Cadeirydd. Cynigwyd bod y gwaith yn cael ei rannu rhwng y tri ymgeisydd. Clerc i drefnu Is-bwyllgor Mynwentydd/Llwybrau nos Iau, 11eg o Ebrill am 7yh i benderfynu pwy fydd yn gwneud pa waith.</p>
12.	Cyfarfod Blynyddol:	Ymunodd JW a IE yn ôl gyda'r cyfarfod.

		<p>Penderfynwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol ar yr 9fed o Fai, 2024 oherwydd bod etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar yr 2il o Fai. Lleoliad y cyfarfod fydd Neuadd Garndolbenmaen.</p> <p>Cadeirydd Newydd: RW gyda HP yn cynnig ac MLW yn eilio Is-gadeirydd: MLW</p>
13.	Gohebiaeth:	Dim
14.	Gohebiaeth Ychwanegol:	<p>a. Unllais Cymru - Aelodaeth Unllais Cymru 2024-25</p> <p>b. Urdd Gobaith Cymru - Cronfa Cyfle i Bawb</p> <p>c. Ymgynghoriad Newydd - Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)</p> <p>ch. Llywodraeth Cymru - Adroddiadau atal marwolaethau yn y dyfodol yng Nghymru</p> <p>d. Unllais Cymru - Amserlen flynyddol o weithredoedd ariannol</p> <p>dd. Cynllun Heddlu Ysgolion - e-byst gan Gyngor Tref Nefyn, Cyngor Cymuned Llanbedrog, Cyngor Tref Porthmadog,</p> <p>e. Hyfforddiant Mawrth hyd at Fehefin</p>
15.	Cynllunio:	<p>Rhestrau: 4/3, 11/3, 18/3, 25/3</p> <p>Ceisiadau Cynllunio:</p> <p>Rhif Cais: C24/0146/36/AC Lleoliad: Chwarel Bryncir, Llystyn Gwyn, Bryncir, LL51 9LX Bwriad: Cais o dan Adran 73 ar gyfer diwygio amod rhif C092/0375/36/LL ar gyfer gosod offer paratoi concriid parod a dau seilo symudol ychwanegol. - Ymatebwyd gyda sylwad yn dweud dim gwrthwynebiad mewn egwyddor ond bod rhaid datrys y broblem gyda dŵr wast.</p>
16.	Materion Ariannol:	<p>Ceisiadau am arian:</p> <p>Eisteddfod Rhondda Cynon Taf</p> <p>Monitro'r gyllideb : Dim Gorwariant</p> <p>Biliau i'w talu</p> <p>Cyflog Clerc = £311.58 Ffôn = £ 15.00 Cyfrifiadur = £20.00 HMRC = £77.90 Veolia = £ 2.44</p>

		Y Ffynnon = £28.00 Derbyniadau: Pritchard & Griffiths = £220.00 Balansau Cyfrifon Banc: Cyfredol: £1,257.92 Cadw: £33,304.37
17.	Gohebiaeth i'r wefan / wasg	- Cyfarfod Blynyddol - Binau Mynwent